



Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

---

# Digwyddiadau Sicrhau Ansawdd Aiddilysu 2019

---

Chwefror 2019 Katie Leighton, Sian Parker-  
Hornsey a Gareth Lloyd-Richards



## Cynnwys

---

<b>Adran 1</b>	<b>Trosolwg</b>	<b>2</b>
<b>Adran 1.1</b>	Fframwaith Rheoli Ansawdd	<b>4</b>
<b>1.2</b>	Gweithdrefn	<b>5</b>
<b>Adran 2</b>	<b>Dadansoddiad</b>	<b>6</b>
<b>2.1</b>	Canlyniadau Cymru Gyfan	<b>7</b>
<b>2.2</b>	Canlyniadau Gofal Sylfaenol	<b>8</b>
<b>2.3</b>	Canlyniadau Gofal Eilaidd	<b>10</b>
<b>Adran 3</b>	<b>Adborth gan Gynadleddwyr</b>	<b>12</b>
<b>Adran 4</b>	<b>Argymhellion a Chynllunio i'r Dyfodol</b>	<b>14</b>
<b>Atodiad 1</b>	Tabl cynnydd yn erbyn Argymhellion Adroddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu 2017-18	<b>15</b>
<b>Atodiad 2</b>	Sgoriau Maen Prawf Unigol Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan	<b>17</b>
<b>Atodiad 3</b>	Sgoriau Maen Prawf Unigol Gofal Eilaidd Cymru Gyfan	<b>19</b>



## Adran 1 - Trosolwg

---

Bob blwyddyn, bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn hwyluso dau ddigwyddiad Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol ledled Cymru. Y nod cyffredinol yw adolygu allbynnau arfarniadau drwy asesu crynodebau arfarnu o ofal Sylfaenol ac Eilaidd yn erbyn set o feini prawf ansawdd er mwyn nodi themâu Cymru gyfan.

Eleni cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad hanner diwrnod yn Llanelwy (Canolfan OptIC) ar 3 Hydref ac yn Abertawe (Gwesty'r Village) ar 8 Tachwedd.

**Roedd 147 o gynadleddwyr wedi dod i'r digwyddiad, roedd 68 o'r rheini a oedd yn bresennol wedi llenwi'r arolwg adborth ac o'r rheini dywedodd 100% fod asesu crynodebau Arfarnwyr eraill wedi bod o fudd i'w rôl.**

Nod y digwyddiadau sicrhau ansawdd oedd cyflawni'r canlynol;

- Sicrhau ansawdd tua 4% o grynodedbau arfarnu a oedd wedi cael eu dewis ar hap mewn lleoliadau gofal Sylfaenol ac Eilaidd.
- Cynhyrchu dadansoddiad defnyddiol i hyrwyddo cynllunio gweithredu yn y dyfodol.
- Hyrwyddo'r arfer gorau i'r holl gynadleddwyr, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o ansawdd arfarnu.
- Nodi meysydd ar gyfer hyfforddiant pellach.
- Rhannu'r arferion gorau rhwng Arfarnwyr Gofal Sylfaenol ac Eilaidd.
- Arfogi'r Arfarnwyr â'r offer a'r wybodaeth i ddylanwadu ar y ffordd byddant yn cynnal arfarniadau yn y dyfodol.

**Eleni roedd sgôr ansawdd cyfun Gofal Sylfaenol ac Eilaidd yng Nghymru yn 70% sy'n gynydd o 5% ers y flwyddyn flaenorol.**

Mewn Gofal Sylfaenol mae'r 17 maen prawf i gyd wedi dangos cynnydd amrywiol mewn sgoriau ac mewn Gofal Eilaidd mae 10 o'r 17 maen prawf (59%) hefyd wedi cael sgoriau uwch. Mae'r canlyniadau hyn yn dystiolaeth o'r duedd sy'n parhau bod ansawdd allbynnau arfarniadau'n gwella.

Mae hefyd yn awgrymu bod y gweithgareddau a gyflawnir gan Arfarnwyr, yr Uned Cymorth Ailddilysu, y Byrddau Iechyd, Arweinwyr a Chydlynwyr Arfarnu i ganolbwyntio ar wella ansawdd arfarniadau yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r digwyddiadau Sicrhau Ansawdd Ailddilysu, yr adroddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu a'i argymhellion a digwyddiadau hyfforddiant RAC wedi cyfrannu at wella'r sgoriau ansawdd ar gyfer un o'r meini prawf Gofal Eilaidd a oedd yn cael y sgôr isaf; Cyd-destun Proffesiynol. Mae Ffigur 3 yn dangos y cynnydd mewn sgoriau ansawdd ar gyfer y maen prawf hwn ers 2018 a'r gwaith sicrhau ansawdd a wnaed i gefnogi datblygiad y Cyd-destun Proffesiynol mewn crynodebau arfarnu.



Ffigur 3 - Sgoriau Ansawdd Cyd-destun Proffesiynol yn ôl Chwarter Arfarnu (ChA)

Ystod y Crynodebau	Gorffennaf - Medi 2018	Cynnal Digwyddiadau Sicrhau Hydref - Rhagfyr 2018	Rhyddhau Adroddiad Sicrhau Ionawr - Mawrth 2019	Cynnal Digwyddiadau RAC 2019 Ebrill - Mehefin 2019
Sgôr Cyd-destun Proffesiynol	30%	44%	42%	43%

Mae argymhellion wedi cael eu nodi ar ôl dadansoddi'r data sicrhau ansawdd gan gynnwys cynllunio ar gyfer y dyfodol mewn meysydd megis digwyddiadau Sicrhau Ansawdd Aiddilysu, hyfforddiant i Arfarnwyr Gofal Eilaidd, a MARS. Bydd yr Uned Cymorth Aiddilysu hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Byrddau Iechyd, Cydlynwyr Arfarnu a'r rhwydwaith newydd o Arweinwyr Arfarnu Gofal Eilaidd er mwyn hwyluso rhagor o welliant.



## Adran 1.1 - Fframwaith Rheoli Ansawdd

Mae'r Uned Cymorth Aiddilysu a'r Cyrff Dynodedig yn gweithio mewn Fframwaith Rheoli Ansawdd Cymru gyfan y cytunwyd arno. Mae hyn yn golygu bod modd adolygu eu trefniadau ar lefel y sefydliad ar gyfer y broses arfarnu ar gyfer pob Meddyg yng Nghymru a sut caiff hynny ei lywodraethu. Mae sicrhau ansawdd allbynnau arfarnu yn rhan o'r fframwaith hwnnw i reoli ansawdd. O'r herwydd mae'n nodi:


*'Ceir adolygiad rheolaidd o ansawdd Cynlluniau Datblygu Personol (CDP) a chrynodebau arfarnu yn y Corff Dynodedig ac fel rhan o adolygiadau sicrhau ansawdd blynyddol.'*

Mae adolygiadau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio er mwyn cyfrannu at hyfforddi Arfarnwyr a gwella'r broses arfarnu.

Mae Ffigur 1 yn dangos y berthynas rhwng rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd a gwella ansawdd, gan greu'r cylch rheoli ansawdd. O ran allbynnau arfarnu, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Rheoli ansawdd – meini prawf ansawdd
- Sicrhau ansawdd – digwyddiadau sicrhau ansawdd rhanbarthol
- Gwella ansawdd – argymhellion yn cael eu rhoi ar waith o weithgareddau sicrhau ansawdd

Ffigur 1. - Y Cylch Rheoli Ansawdd





## Adran 1.2 - Gweithdrefn

Cafodd dau ddiwyddiad hanner diwrnod eu marchnata i bob Arfarnwr Gofal Sylfaenol ac Eilaidd drwy swyddogaeth e-ddarlledu MARS, y Cydlynwyr Arfarnu, yr Arweinwyr Arfarnu a'r Cyrff Dynodedig. Mewn ymateb i'r adborth o'r llynedd ni chynhaliwyd y sesiwn drafod wirfoddol yn ystod y prynhawn er mwyn i'r sesiwn bore allu canolbwyntio'n llwyr ar yr ymarfer sgorio ansawdd. Cafodd digwyddiadau eleni eu strwythuro i hwyluso ymarfer sicrhau ansawdd yn ystod y bore, cyflwyniad a oedd yn cynnwys diweddariadau cenedlaethol a sesiwn briffio fer.



I baratoi ar gyfer y digwyddiad, cafodd y fideo graddnodi Sicrhau Ansawdd Aiddilysu a chrynodeb PDF o enghreifftiau eu cyfuno er mwyn creu fideo graddnodi ar-lein hawdd ei ddefnyddio. Roedd 4% o'r crynodebau a gwblhawyd ac y cytunwyd arnynt wedi cael eu dewis ar hap o MARS (System Arfarnu Meddygol ac Aiddilysu) a chawsant eu gwneud yn ddiennw. Cafodd fformat y crynodebau ei newid i adlewyrchu'r fersiwn a oedd ar gael i Arfarnwyr drwy MARS. Roedd hyn yn disodli'r fersiwn blaenorol a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn

digwyddiadau cenedlaethol a oedd ar ffurf Excel.

Fel rhan o'r broses o'u gwneud yn ddiennw gan yr Uned Cymorth Aiddilysu, roedd maen prawf sgorio 2 (Arddull Broffesiynol: Ar wahân i'r meddyg nid oes modd adnabod neb arall yn y crynodeb) wedi cael ei sgorio ymlaen llaw. Roedd y sgôr hon ar gael i'r rheini a oedd yn bresennol wrth lenwi'r dalenni sgorio glas consensws, os oedd unrhyw anghysondeb, gellid nodi hynny ar y ddalen sgorio.

Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i rwydweithio a rhannu'r hyn a ddysgwyd roedd y cynadleddwyr wedi cael eu rhannu yn grwpiau ar sail eu daearyddiaeth a'u statws fel Arfarnwr Gofal Sylfaenol neu Ofal Eilaidd. Pan roedd yn bosibl, roedd pob grŵp yn cynnwys cynrychiolydd Gofal Sylfaenol ac roeddent yn cynnwys 4/5 o Arfarnwyr gyda'i gilydd. Aeth y rheini a oedd yn bresennol drwy'r ymarfer sgorio yn y grwpiau hyn a oedd yn galluogi trafodaeth a chonsensws ynghylch sgôr i'w chyflawni.

Roedd y grwpiau'n cael crynodebau o'r tu allan i'w hardaloedd daearyddol unigol eu hunain i gynorthwyo gyda chyfrinachedd.

Yn ystod y digwyddiad atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol o'u hymrwymiad i breifatrwydd a chyfrinachedd wrth sgorio crynodebau bywyd go iawn ac roedd staff cymorth o'r Uned Cymorth Aiddilysu a'r Byrddau Iechyd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

## Adran 2 - Dadansoddiad



Eleni roedd nifer y crynodebau a gafodd eu sgorio wedi codi o 123 (2018) i 147 gyda 5 crynodeb ar gyfartaledd yn cael eu sgorio fesul grŵp o'u cymharu â 4 yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae modd priodoli'r cynnydd hwn i gynllun newydd y crynodebau a oedd wedi cael eu defnyddio i Sicrhau Ansawdd Ailddilysu eleni. Roedd y fformat a gafodd ei ddefnyddio'n adlewyrchu fformat crynodebau'r System Arfarnu Meddygol ac Ailddilysu (MARS) sy'n fwy cyfarwydd i'r Arfarnwyr a bydd hyn wedi'i gwneud hi'n haws iddynt lywio a sgorio'r crynodeb yn fwy effeithlon.

Mae'r holiadur adborth yn cefnogi'r safbwynt hwn gan fod 96% o'r rheini a oedd wedi llenwi'r arolwg yn cefnogi

fformat a chynllun newydd y crynodebau. Felly, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r fformat hwn ar gyfer crynodebau wrth symud ymlaen.

O'r 147 o Arfarnwyr a oedd yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad roedd 25 (17%) o Ofal Sylfaenol a 122 (83%) o Ofal Eilaidd. Mae hyn yn golygu bod 17% o Arfarnwyr Gofal Eilaidd gweithredol a 23% o Arfarnwyr Gofal Sylfaenol gweithredol ar draws Cymru wedi dod i'r digwyddiadau hyn.

Dywedodd **84%** o'r rheini a oedd wedi llenwi arolwg adborth y **byddant** yn newid y ffordd maent yn cynhyrchu crynodebau yn y dyfodol ar ôl iddynt fod yn y digwyddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu. Mae'r ystadegyn hwn yn dangos pwysigrwydd cynnal digwyddiadau o'r fath a'r budd i'r Arfarnwyr sy'n bresennol.



## Adran 2.1 – Canlyniadau Cymru Gyfan

---

Mae Tabl 1 ‘Sgôr Ansawdd Crynodebau Cymru Gyfan’ yn dangos bod y sgôr ansawdd gyffredinol ar gyfer Cymru wedi gwella. Er bod y sgoriau cyffredinol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac Eilaidd wedi cynyddu, rhaid nodi bod cyfran uwch (20%) o grynodedau Gofal Sylfaenol wedi’u marcio yn 2019 o gymharu â 2018. Bydd hyn wedi cyfrannu at y cynnydd o 5% yn Sgôr Ansawdd Cymru Gyfan.

**Tabl 1 – Sgôr Ansawdd Crynodebau Cymru Gyfan 2017-2019**

Sgôr Ansawdd Gyffredinol Crynodebau Cymru Gyfan	2017-2018	65%
	2018-2019	<b>70%</b>
	Y GWAHANIAETH	<b>+5%</b>





## Adran 2.2 – Canlyniadau Gofal Sylfaenol

Mae Tabl 2 ‘Sgôr Ansawdd Crynodebau Gofal Sylfaenol’ yn dangos bod y sgôr ansawdd gyffredinol ar gyfer crynodebau Gofal Sylfaenol ledled Cymru wedi cynyddu, mae hyn yn arwydd cadarnhaol bod ansawdd allbynnau arfarniadau yn parhau i wella.

**Tabl 2 – Sgôr Ansawdd Crynodebau Gofal Sylfaenol 2017-2019**

Sgôr Ansawdd Crynodebau Gofal Sylfaenol	2017-2018	86%
	2018-2019	<b>88%</b>
	Y GWAHANIAETH	<b>+2%</b>

### Y Meini Prawf a oedd yn cael y Sgoriau Uchaf

Mewn Gofal Sylfaenol ni fu ffocws penodol ar y ddau faen prawf a oedd yn cael y sgoriau uchaf a nodir yn Nhabl 3 ond yn hytrach bu ffocws ar ansawdd cyffredinol yr arfarniadau a oedd yn cael eu cynhyrchu yn ogystal â'r rheini a oedd yn cael sgoriau isel yn gyson. Mae'r tabl yn dangos bod maen prawf 9 wedi parhau i fod yn faes a oedd yn cael sgôr uchel drwy gydol 2017 - 2019 gan fod sicrhau bod cofnodion wedi cael eu trafod a'u cofnodi'n fanwl yn rhan hanfodol o'r broses arfarnu. Mae'n galonogol gweld mai nid yn unig dyma un o'r meini prawf sy'n sgorio uchaf, mae'r sgôr ei hun wedi cynyddu 14%. Ar ben hynny, roedd gwrthrychedd y crynodebau wedi cael sgoriau uchel iawn yn 2018-2019 gan fod hyn yn elfen hollbwysig o arfarniad. Er bod tabl 3 yn dangos bod maen prawf 4 wedi cymryd lle maen prawf 8, mae maen prawf 8 yn dal i gael sgoriau uchel.

*Mae rhestr lawn o'r meini prawf a'r sgoriau ar gael yn atodiad 2*

**Tabl 3 – Y meini prawf a oedd yn cael y sgoriau uchaf ar gyfer Gofal Sylfaenol**

2017-2018		2018-2019	
9. Caiff tri chofnod neu ragor eu trafod a'u cofnodi'n fanwl.	84%	9. Roedd tri chofnod neu ragor wedi cael eu trafod a'u cofnodi'n fanwl	98%
8. Mae'r Arfarnwr wedi cydnabod ac wedi cofnodi gwelliannau a newidiadau eraill mewn ymarfer a/neu ofal cleifion.	84%	4. Mae'r crynodeb yn wrthrychol.	98%

### Y Meini Prawf a oedd yn cael y Sgoriau Isaf

Mae hi'n bwysig nodi er mai'r ddau faen prawf yn Nhabl 4 sy'n cael y sgoriau isaf, mae'r sgoriau ansawdd cyffredinol yn sylweddol uwch na'r flwyddyn flaenorol sy'n galonogol. Mae maen prawf 11 yn faes sy'n dal i gael sgoriau is yn gymharol drwy gydol 2017-2019 gyda maen prawf 5 yn disodli maen prawf 16. Ers 2017-2018, mae maen prawf 16 wedi gweld cynnydd sylweddol mewn sgoriau o 62% i 89%. Mae gofal sylfaenol wedi canolbwyntio ar rai o'r elfennau sy'n cael sgoriau is ers y llynedd fel rhan o'u cyfarfodydd rhanbarthol, fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd hi'n cymryd amser i'r gwelliannau fynd drwyddo i'r crynodebau arfarnu.

*Mae rhestr lawn o'r meini prawf a'r sgoriau ar gael yn atodiad 2*


**Tabl 4 – Y meini prawf a oedd yn cael y sgoriau isaf ar gyfer Gofal Sylfaenol**

2017 - 2018		2018 - 2019	
11. Cyfyngiadau: Pan fyddant wedi'u rhestru gan y meddyg, mae'r Arfarnwr yn gwneud sylwadau priodol ar gyfyngiadau.	64%	11. Cyfyngiadau: Pan fyddant wedi'u rhestru gan y meddyg, mae'r Arfarnwr yn gwneud sylwadau priodol ar gyfyngiadau.	75%
16. Strwythur y Crynodeb: Mae'r crynodeb yn ddigon cryno ond yn cydnabod datblygiad proffesiynol y Meddyg	62%	5. Mae cofnodion tebyg wedi cael eu cysylltu neu eu grwpio'n briodol	79%



## Adran 2.3 – Canlyniadau Gofal Eilaidd

Mae tabl 5 yn dangos bod y sgôr ansawdd gyffredinol ar gyfer crynodebau Gofal Eilaidd ledled Cymru wedi gwella ychydig, sy'n adlewyrchu'r patrwm am i fyny sy'n parhau yn ansawdd allbynnau arfarniadau.

**Tabl 5 – Sgôr Ansawdd Crynodebau Gofal Eilaidd 2017-2019**

Sgôr Ansawdd Crynodebau Gofal Eilaidd	2017-2018	55%
	2018-2019	56%
	Y GWAHANIAETH	+1%

### Y Meini Prawf a oedd yn cael y Sgoriau Uchaf

Safon broffesiynol y crynodebau yw un o'r meysydd sydd wedi parhau i gael y sgoriau uchaf ar gyfer Gofal Eilaidd. Ar ben hynny, roedd gwrthrychedd y crynodebau wedi cael sgoriau uchel sydd hefyd yn elfen bwysig ar gyfer arfarnu. Dros y 12 mis nesaf, bydd ansawdd cyffredinol allbynnau'r arfarniadau'n parhau i fod yn faes y canolbwyntir arno.

Er bod y sgoriau ansawdd cyffredinol ar gyfer y ddau faen prawf sy'n cael y sgoriau uchaf (Tabl 6) wedi disgyn, mae hi'n galonogol iawn gweld bod dros 50% o'r sgoriau meini prawf wedi gwella. Gwelir gwelliannau mewn meysydd fel CDP, cynnydd at Ailddilysu, defnyddio myfyrio a grwpio cofnodion yn briodol.

Mae un o'r meini prawf a gafodd y sgôr uchaf yn 2017-2018, maen prawf 2, wedi disgyn o 80% i 53%. Gallai hyn fod oherwydd y ffaith bod y maen prawf hwn wedi cael ei sgorio ymlaen llawn gan yr Uned Cymorth Ailddilysu fel rhan o'r broses o wneud pethau'n ddiennw yn 2018-2019. Efallai fod y maen prawf hwn wedi cael ei graffu'n fanylach nag y byddai mewn digwyddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu oherwydd y cyfyngiadau amser. Bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn parhau i sgorio'r maen prawf hwn a bydd yn monitro'r canlyniadau wrth symud ymlaen.

*Mae rhestr lawn o'r meini prawf a'r sgoriau ar gael yn atodiad 3*

**Tabl 6 – Y meini prawf a oedd yn cael y sgoriau uchaf ar gyfer Gofal Eilaidd**

2017-2018		2018 - 2019	
3. Mae safon y crynodeb yn broffesiynol o ran gramadeg, sillafu a theipio.	78%	3. Mae safon y crynodeb yn broffesiynol o ran gramadeg, sillafu a theipio.	73%
2. Ar wahân i'r Meddyg nid oes modd adnabod neb arall yn y crynodeb.	80%	4. Mae'r crynodeb yn wrthrychol.	72%

### Y Meini Prawf a oedd yn cael y Sgoriau Isaf

Mae hi'n galonogol gweld yn nhabl 7 fod y maen prawf a gafodd y sgôr isaf, Cyd-destun Proffesiynol, wedi gwella 9% ers y llynedd. Mae'r maes hwn wedi bod yn rhan allweddol o drafodaethau a digwyddiadau hyfforddi'r Arfarnwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae maen prawf 10 yn rhan bwysig o'r broses arfarnu ac mae'n cynnwys meysydd fel a oedd yr Arfarnwr wedi nodi pwyntiau dysgu a mesuriadau yn erbyn cynnydd. Dros y 12 mis nesaf bydd hyn yn faes i ganolbwyntio arno er mwyn cefnogi gwelliant.

Maes arall roedd Gofal Eilaidd wedi canolbwyntio arno ydy maen prawf 17, sydd wedi gweld y sgôr ansawdd yn gwella o 31% yn 2017-2018 i 42% yn 2018-2019.

*Mae rhestr lawn o'r meini prawf a'r sgoriau ar gael yn atodiad 3*

**Tabl 7 – Y meini prawf a oedd yn cael y sgoriau isaf ar gyfer Gofal Eilaidd**

2017 - 2018		2018 - 2019	
1. Cyd-destun Proffesiynol: A ydynt wedi cynnwys cyd-destun proffesiynol sy'n rhoi arwydd o rolau a chyfrifoldebau'r Meddygon.	32%	1. Cyd-destun Proffesiynol: A ydynt wedi cynnwys cyd-destun proffesiynol sy'n rhoi arwydd o rolau a chyfrifoldebau'r Meddygon.	41%
17. WPA - Arfarniad Ymarfer Cyfan: Mae WPA wedi cael ei gynnwys. Mae wedi cael ei drafod pan fo'n briodol.	31%	10. Mae tystiolaeth o werth ychwanegol o'r drafodaeth arfarnu	36%



## Adran 3 - Adborth y Cynadleddwyr

Ar ôl y digwyddiad, gofynnwyd i'r cynadleddwyr lenwi holiadur adborth ar-lein. Roedd yr holiadur yn gofyn iddynt sgorio a darparu adborth ar feysydd megis yr ymarfer graddnodi, y croeso, yr ymarfer sgorio ac, yn anad dim arall, effaith y digwyddiad ar eu rôl fel Arfarnwr. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi gwelliannau cadarnhaol i'r crynodeb arfarnu a'r system MARS yn ogystal â nodi pynciau ar gyfer diwrnodau hyfforddiant i Arfarnwyr yn y dyfodol.

Roedd 100 wedi llenwi'r holiadur adborth, a oedd yn **68%** o'r cynadleddwyr a oedd wedi bod i'r ddau ddigwyddiad. Roedd **90%** o'r cynadleddwyr wedi bod mewn digwyddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu o'r blaen ac roedd **10%** naill ai'n Arfarnwyr newydd neu nid oeddent wedi bod mewn digwyddiad o'r blaen. At ei gilydd roedd y canlyniadau'n gadarnhaol dros ben ac yn adeiladol gyda dros **80%** yn dweud o ganlyniad i ddod i'r digwyddiad y byddant yn newid y ffordd maent yn cynhyrchu crynodeb arfarnu yn y dyfodol.

### Fideo graddnodi

Ar ôl cyflwyno'r fideo graddnodi'r llynedd, dim ond os nad oeddent wedi gwneud hynny o'r blaen yr oedd angen i'r cynadleddwyr gwblhau'r ymarfer. Er mai dim ond 10% o'r ymatebwyr a oedd yn dod i'r digwyddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu am y tro cyntaf, roedd dros 50% wedi cwblhau'r ymarfer. Mae hyn yn golygu bod rhai Arfarnwyr wedi defnyddio'r fideo graddnodi fel rhywbeth i'w hatgoffa ar gyfer yr ymarfer sgorio eleni.

- Roedd **80%** o'r cynadleddwyr wedi dweud bod hwylustod defnyddio'r fideo graddnodi yn Dda neu'n Wych.
- Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod defnyddio'r fideo graddnodi cyn y digwyddiad

*"wedi helpu gyda'r hyn i'w ddisgwyl ar y diwrnod", "wedi ei gwneud hi'n haws asesu crynodebau" ac wedi helpu cynadleddwyr gydag "esboniad clir o'r ymarfer a oedd i'w wneud".*

Mae hi'n galonogol gweld bod y fersiwn ar-lein wedi'i ddiweddarau o'r fideo graddnodi yn ddefnyddiol i'r cynadleddwyr *"Roedd hi'n fuddiol dysgu pwyntiau a fydd yn gwella sgiliau arfarnu gan gynnwys trwyadled ar gyfer gwaith arfarnu yn y dyfodol"*

Bydd fersiwn newydd o'r fideo graddnodi yn cael ei gynhyrchu yn 2020 i adlewyrchu newidiadau yn y meini prawf sgorio ac adborth ar hygyrchedd yr adnodd. Bydd hyn yn un o'r argymhellion y byddwn yn ei roi ar waith yn 2019.

### Sgoriau ar gyfer sesiynau gwahanol

- **95%** o'r cynadleddwyr wedi dweud bod y Croeso a'r Cyflwyniad yn Dda lawn neu'n Wych.
- **98%** o'r cynadleddwyr wedi dweud bod y Sesiwn Sgorio yn Dda lawn neu'n Wych.
- **96%** o'r cynadleddwyr wedi dweud bod y Sesiwn Adborth yn Dda lawn neu'n Wych.
- **100%** o'r cynadleddwyr wedi dweud bod Asesu'r Crynodebau yn Dda lawn neu'n Wych.

### Rhan fwyaf defnyddiol y digwyddiad

- **44%** o'r cynadleddwyr yn teimlo mai Gwella Ansawdd eu gwaith eu hunain oedd rhan fwyaf defnyddiol y digwyddiad.
- **21%** o'r cynadleddwyr yn teimlo mai'r Arweiniad oedd rhan fwyaf defnyddiol y digwyddiad
- **21%** o'r cynadleddwyr yn teimlo mai'r cyfle i rwydweithio oedd rhan fwyaf defnyddiol y digwyddiad
- **13%** o'r cynadleddwyr yn teimlo mai'r adborth oedd fwyaf defnyddiol
- **1%** o'r cynadleddwyr wedi dewis arall:

*"Wedi cael awgrymiadau clinigol o'r crynodebau arfarnu"*



*“CPD ar gyfer rôl yr Arfarnwr. Rhannu ymarfer da ymysg Arfarnwyr eraill mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd”*

### **Tair elfen bwysicaf crynodeb arfarnu**

- Myfyrion ar gynnydd
- Cofnod o ddatblygiad a chyflawniadau'r Meddyg
- Gwrthrychedd

### **Gwelliannau i'w gwneud ar grynodebau arfarnu a MARS**

Dyma sylwadau amlwg a gafodd eu haildrodd gan gynadledwyr;

- Rhestr wirio (meini prawf sgorio) ar gyfer Arfarnwr wrth lenwi arfarniad.
- Cyfleuster grwpio haws ar MARS.
- Ystyried safle blychau ticio/cadw ar MARS ar gyfer cofnodion sy'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth.



## Adran 4 – Argymhellion a Chynllunio i'r Dyfodol

Mae'r ddau ddigwyddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu eleni wedi bod yn llwyddiannus, a chafodd hyn ei gyflawni gyda chefnogaeth a chyfraniadau'r holl sefydliadau partner yr ydym wedi gweithio gyda nhw. Mae nifer o awgrymiadau ac argymhellion wedi cael eu nodi o'r ymarfer sgrinio ei hun a'r adborth a gafwyd gan y cynadleddwyr ar ôl y digwyddiad. Mae'r meysydd a nodwyd ar gyfer argymhellion i'r dyfodol wedi cael eu grwpio i'r meysydd canlynol Hyfforddiant Arfarnwyr Sicrhau Ansawdd Ailddilysu a MARS (Tabl 8).

Y prif nodau yn 2020 fydd parhau â'r gwaith parhaus gydag arweinwyr Gofal Eilaidd i roi sylw i'r meysydd a gafodd sylw yn yr ymarfer sy'n galw am ragor o waith ac adolygu'r offer, yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i Arfarnwyr er mwyn iddynt gyflawni eu rolau'n llwyddiannus. Drwy gydol 2020 byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chydlynwyr Arfarnu i sicrhau bod Gofal Sylfaenol nid yn unig yn cynnal ond yn gwella ansawdd allbynnau'r arfarniadau drwy eu rhwydweithiau a'u cyfleoedd hyfforddi.

**Tabl 8 - Argymhellion**

Cam Gweithredu	Gweithgaredd	Amserlen	Gan bwy	Statws
<b>Sicrhau Ansawdd Ailddilysu</b>				
Ymarfer Graddnodi	Adolygu fformat, cynnwys a llwyfan ar gyfer ymarfer graddnodi a chynnwys cyfieithiad Cymraeg	2020	Uned Cymorth Ailddilysu	NEWYDD
Dewis Crynodebau Sicrhau Ansawdd Ailddilysu	Adolygu nifer y crynodebau sy'n mynd i Sicrhau Ansawdd Ailddilysu.	2020	Uned Cymorth Ailddilysu	NEWYDD
Meini Prawf Sgorio Sicrhau Ansawdd Ailddilysu	Adolygu'r meini prawf cyfredol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â disgwyliadau arfarnu	2020	Uned Cymorth Ailddilysu	NEWYDD
<b>Hyfforddiant Arfarnwyr</b>				
Themâu Hyfforddiant Arfarnwyr	Canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella o ran canlyniadau'r meini prawf sy'n cael y sgoriau isaf ar gyfer RAC a Chyfarfodydd Rhanbarthol.	2020	Uned Cymorth Ailddilysu/ Byrddau Iechyd	NEWYDD
Modiwl Hyfforddiant Sgiliau Arfarnwyr	Sicrhau bod datblygu modiwl Hyfforddiant Arfarnwyr yn ymgorffori meini prawf Sicrhau Ansawdd Ailddilysu a fideo graddnodi	2020	Uned Cymorth Ailddilysu	NEWYDD


**Atodiad 1 - Tabl cynnydd yn erbyn Argymhellion Adroddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu 2017-18**

Cam Gweithredu	Gweithgaredd	Amserlen	Gan bwy	Statws
<b>Sicrhau Ansawdd Ailddilysu</b>				
Ymarfer Graddnodi Rhyngweithiol	Ystyried fformat yr ymarfer graddnodi i'w wneud yn haws ei ddefnyddio.	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
Adolygu Cynnydd yr Arfarnwyr	Treialu prosiect adolygu cynnydd er mwyn gwerthuso ansawdd yr arfarniadau sy'n cael eu cwblhau dros 5 crynodeb dilyniannol	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Parhaus
Rhaglen y Digwyddiad Sicrhau Ansawdd Ailddilysu	Trin a thrafod posibilrwydd cael gwared â'r ymarfer dysgu yn ystod y prynhawn.	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
Arolwg Adborth Sicrhau Ansawdd Ailddilysu	Cynnwys adran "Effaith adrodd stori" i gasglu straeon cadarnhaol penodol sydd wedi effeithio ar arfarnu	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Parhaus
Templed adborth ar-lein	Casglu tueddiadau ar gyfer cofnodi a choladu cynllun gweithredu ar gyfer 2019	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
<b>Hyfforddiant Arfarnwyr</b>				
Themâu Hyfforddiant Arfarnwyr	Canolbwyntio ar gyd-destun proffesiynol, cyfyngiadau ac WPA drwy gydol cyfleoedd hyfforddi 2019	2019	Uned Cymorth Ailddilysu/ Byrddau Iechyd	Wedi'i gwblhau
Digwyddiadau Hyfforddiant Arfarnwyr	Dod ag RAC a NAC yn unol â'i gilydd er mwyn darparu gweithdai ategol	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Parhaus
Arddangos arferion da ar draws y Byrddau Iechyd	Cyflwyno cyfleoedd i Gyrrff Dynodedig arddangos ymarfer da mewn digwyddiadau i arfarnwyr, er enghraifft, digwyddiadau sicrhau	2019	Uned Cymorth Ailddilysu/	Wedi'i gwblhau





Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol 2019

	ansawdd lleol, adborth ar gyfyngiadau, hyfforddiant i arfarnwyr		Byrddau Iechyd	
Pwysleisio CDP CAMPUS	Tynnu sylw at ymarfer da ar gyfer CDP CAMPUS	Hyfforddiant Arfarnwyr	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
Canolbwyntio ar elfennau ailddilysu hy, QIAs, SEA ac WPA	Tynnu sylw at ymarfer da i rannu safonau dogfennau gwella ansawdd. Sut mae ystyried elfennau ar gyfer ailddilysu a chynnydd dogfennau ar gyfer ailddilysu.	Hyfforddiant Arfarnwyr	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
Grwpio cofnodion	Rhannu grwpio dogfennau ar gyfer arfarnwyr, yn enwedig ar gyfer arfarnwyr newydd ac mewn gofal eilaidd yn benodol gyda sefydlu MARS newydd.	Hyfforddiant Arfarnwyr	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
Cysondeb ynghylch disgwyliad RO o'r hyn i'w gynnwys mewn crynodebau ar gyfer gofynion ailddilysu	Hwyluso trafodaethau ar gysondeb mewn Cyrff Dynodedig mewn perthynas â chrynhoi a chynnwys elfennau penodol ar gyfer arfarnu ac ailddilysu.	2018	RAIG / Rhwydwaith RO	Parhaus
<b>MARS</b>				
Cyd-destun proffesiynol	Ystyried gwneud "Cyd-destun Proffesiynol" yn orfodol ar yr arfarniad	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Parhaus
Samplio Arfarniadau ar Hap	Cysoni'r samplwr ar hap ar MARS gyda'r swyddogaeth mewnbwn arfarnu i sicrhau bod unrhyw newidiadau ar MARS yn cael eu cofnodi yn y crynodebau ar gyfer IQA ac RQA.	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Wedi'i gwblhau
Meini Prawf Sgorio Sicrhau Ansawdd Ailddilysu	Y meini prawf i fod ar gael i'r Arfarnwr wrth gwblhau arfarniad ar MARS	2019	Uned Cymorth Ailddilysu	Parhaus


**Atodiad 2 - Sgoriau Maen Prawf Unigol Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan**

ID	MEINI PRAWF	SGÔR
1	<b>Cyd-destun Proffesiynol</b> A ydynt wedi cynnwys cyd-destun proffesiynol sy'n rhoi arwydd o rolau a chyfrifoldebau'r meddyg?	85%
2	<b>Arddull Broffesiynol</b> Ar wahân i'r meddyg nid oes modd adnabod neb arall yn y crynodeb.	88%
3	Mae safon y Crynodeb yn broffesiynol o ran gramadeg, sillafu a theipio.	83%
4	Mae'r Crynodeb yn wrthrychol.	98%
5	Mae cofnodion tebyg wedi cael eu cysylltu neu eu grwpio'n briodol.	79%
6	Mae'r crynodeb yn dangos y myfyriwyd ynghylch cynnydd	90%
7	Mae'r Arfarnwr wedi cofnodi datblygiad a chyflawniadau'r meddyg	94%
8	Mae'r Arfarnwr wedi cydnabod ac wedi cofnodi gwelliannau a newidiadau eraill mewn ymarfer a/neu welliannau mewn gofal cleifion	95%
9	Caiff tri chofnod neu ragor eu trafod a'u cofnodi'n fanwl	98%
10	Mae tystiolaeth o werth ychwanegol o'r drafodaeth arfarnu	80%
11	<b>Cyfyngiadau</b> Pan fyddant wedi'u rhestru gan y meddyg, mae'r Arfarnwr yn gwneud sylwadau priodol ar gyfyngiadau	75%
12	<b>CDP</b> Mae cynnydd yn erbyn pob eitem yn CDP y llynedd wedi cael ei gofnodi, neu mae'r rhesymau dros ddiffyg cynnydd wedi cael eu cofnodi	95%



<b>13</b>	Mae'n ymddangos bod y CDP cyfredol yn cyfateb i anghenion dysgu ac ailddilysu'r meddyg	91%
<b>14</b>	Mae'r CDP cyfredol yn un CAMPUS ac yn cynnwys canlyniadau clir	80%
<b>15</b>	<b>Ailddilysu</b> Mae'r arfarnwr wedi cofnodi cynnydd y meddyg tuag at ailddilysu	90%
<b>16</b>	<b>Strwythur y Crynodeb</b> Mae'r crynodeb yn ddigon cryno ond yn cydnabod datblygiad proffesiynol y Meddyg	89%
<b>17</b>	<b>WPA – Arfarniad Ymarfer Cyfan</b> Mae WPA wedi cael ei gynnwys. Mae wedi cael ei drafod pan fo'n briodol	89%


**Atodiad 3 - Sgoriau Maen Prawf Unigol Gofal Eilaidd Cymru Gyfan**

ID	MEINI PRAWF	SGÔR
1	<b>Cyd-destun Proffesiynol</b> A ydynt wedi cynnwys cyd-destun proffesiynol sy'n rhoi arwydd o rolau a chyfrifoldebau'r meddyg?	41%
2	<b>Arddull Broffesiynol</b> Ar wahân i'r meddyg nid oes modd adnabod neb arall yn y crynodeb.	53%
3	Mae safon y Crynodeb yn broffesiynol o ran gramadeg, sillafu a theipio.	73%
4	Mae'r Crynodeb yn wrthrychol.	72%
5	Mae cofnodion tebyg wedi cael eu cysylltu neu eu grwpio'n briodol.	49%
6	Mae'r crynodeb yn dangos y myfyriwyd ynghylch cynnydd	60%
7	Mae'r Arfarnwr wedi cofnodi datblygiad a chyflawniadau'r meddyg	67%
8	Mae'r Arfarnwr wedi cydnabod ac wedi cofnodi gwelliannau a newidiadau eraill mewn ymarfer a/neu welliannau mewn gofal cleifion	64%
9	Caiff tri chofnod neu ragor eu trafod a'u cofnodi'n fanwl	53%
10	Mae tystiolaeth o werth ychwanegol o'r drafodaeth arfarnu	36%
11	<b>Cyfyngiadau</b> Pan fyddant wedi'u rhestru gan y meddyg, mae'r Arfarnwr yn gwneud sylwadau priodol ar gyfyngiadau	62%
12	<b>CDP</b> Mae cynnydd yn erbyn pob eitem yn CDP y llynedd wedi cael ei gofnodi, neu mae'r rhesymau dros ddiffyg cynnydd wedi cael eu cofnodi	68%



<b>13</b>	Mae'n ymddangos bod y CDP cyfredol yn cyfateb i anghenion dysgu ac ailddilysu'r meddyg	66%
<b>14</b>	Mae'r CDP cyfredol yn un CAMPUS ac yn cynnwys canlyniadau clir	44%
<b>15</b>	<b>Ailddilysu</b> Mae'r arfarnwr wedi cofnodi cynnydd y meddyg tuag at ailddilysu	57%
<b>16</b>	<b>Strwythur y Crynodeb</b> Mae'r crynodeb yn ddigon cryno ond yn cydnabod datblygiad proffesiynol y Meddyg	52%
<b>17</b>	<b>WPA – Arfarniad Ymarfer Cyfan</b> Mae WPA wedi cael ei gynnwys. Mae wedi cael ei drafod pan fo'n briodol	42%